

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

110(v5)

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Cwestiynau Amserol (20 munud)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

[Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argyfwng yn y GIG y gaeaf hwn, yn sgil adroddiadau bod gwasanaethau wedi'u hymestyn i'r eithaf?

Gofyn i Brif Weinidog Cymru:



[Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith Bil Ymadael yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru o ystyried na chyflwynwyd gwelliannau yn ymwneud â datganoli i'r Bil gan Lywodraeth y DU?

[Suzy Davies \(Gorllewin De Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad y bore yma o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe?

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

(60 munud)

NDM6620 [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 'Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig', a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Awst 2017.

Nodyn: [Gosodwyd](#) ymateb Llywodraeth Cymru ar 3 Hydref 2017.

Dogfennau ategol

[Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet – 3 Hydref 2017](#)

[Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor – 2 Tachwedd 2017](#)

6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

NDM6619 [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi anallu y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru i ymdopi â'r lefel bresennol o alw gan fodurwyr.
2. Yn gresynu bod seilwaith ffyrdd is-safonol Cymru yn costio cannoedd o filiynau o bunnoedd y flwyddyn i economi Cymru.
3. Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol rwydwaith ffyrdd addas at y diben ac sy'n gweithredu'n briodol ar gyfer datblygiad tymor hir economi Cymru.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i edrych ar ffyrdd arloesol o gyllido prosiectau ffyrdd yn y dyfodol.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd rhwydwaith ffyrdd dibynadwy ac effeithiol fel rhan o system drafnidiaeth amlfoddol integredig a chynaliadwy sy'n gallu cynnal economi a chymunedau Cymru.
2. Yn nodi bod y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru newydd ei gyhoeddi yn gosod allan rhaglen o welliannau i'r ffyrdd, rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol fel rhan o gynllun buddsoddi cytbwys a chynaliadwy mewn trafndiaeth.

3. Yn cydnabod cynllun Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen pum mlynedd o gyllid cyfalaf i drafnidiaeth i gefnogi buddsoddiad yn y seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o fuddsoddiad y DU mewn seilwaith ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd arloesol o gyllido prosiectau yn y dyfodol.

[Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#)

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]

Gwelliant 2. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu er mwyn cysylltu cymunedau Cymru yn well, gwella ansawdd y teithiau i gymudwyr a datblygu economi Cymru, fod angen buddsoddiad priodol ym mhob modd o deithio, nid ffyrdd yn unig, gan gynnwys rheilffyrdd, bysiau, teithio awyr a dros ddŵr.

Gwelliant 3. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at fwriad Llywodraeth Cymru i ymrwymo ei holl gyllideb fenthyca cyfalaf i adeiladu 'llwybr du' yr M4.

7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

NDM6621 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiddymu'r 'angen blaenoriaethol' o fewn y system digartrefedd a rhoi dyletswydd yn ei le i ddarparu llety i bob person digartref ni

waeth pam eu bod yn ddigartref, fel rhan o'r broses o symud tuag at bolisi 'tai yn gyntaf'.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r effaith gadarnhaol y mae fframwaith statudol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi'i chael yn peri i'r system ddigartrefedd ganolbwyntio ar atal digartrefedd a'r sylfaen gref y mae hyn yn ei rhoi ar gyfer camau gweithredu pellach.

2. Yn cydnabod y pwysau cynyddol ar y system a phroblemau penodol i rai grwpiau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried diddymu'r 'angen blaenoriaethol' o fewn y system digartrefedd a rhoi dyletswydd yn ei le i ddarparu cynnig o lety addas i bob person digartref ni waeth pam eu bod yn ddigartref, fel rhan o'r broses o symud tuag at ddull cynhwysfawr o geisio dod â digartrefedd i ben yng Nghymru, sy'n cynnwys polisi 'tai yn gyntaf'.

[Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#)

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]

Gwelliant 2. [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

Dileu popeth cyn "fel rhan o'r broses o symud tuag at bolisi 'tai yn gyntaf'" a rhoi yn ei le:

"Yn nodi â phryder y cynnydd mewn digartrefedd yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu comisiwn trawsbleidiol i gytuno ar strategaeth ddigartrefedd i gynnwys dod â chysgu ar y stryd i ben erbyn 2020,"

8 Cyfnod Pleidleisio

9 Dadl Fer

(30 munud)

NDM6615 [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)

Galw am siarter ar gyfer urddas wrth ymddeol a diogelwch pobl hŷn

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2018

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 03/01/2018 i'w hateb ar 10/01/2018

03/01/2018 i'w hateb ar 10/01/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Vikki Howells *Cwm Cynon*

1 OAQ51518

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus i drigolion Cwm Cynon yn 2018?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

2 OAQ51522 [Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg](#)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fudd economaidd datbygiadau seilwaith ar Ynys Môn?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

3 OAQ51504

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith stormydd y gaeaf ar y rhwydweithiau ffyrdd?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

4 OAQ51513

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i dyfu economi canolbarth Cymru?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

5 OAQ51502

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o nifer y busnesau yr effeithir arnynt yn andwyol gan force majeure?

David Melding *Canol De Cymru*

6 OAQ51500

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o sefyllfa economaidd bresennol y sector adeiladu?

Mick Antoniw *Pontypridd*

7 OAQ51516

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fanteision y cyflog byw i economi Cymru?

Mohammad Asghar *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ51507

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru yn 2018?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

9 OAQ51503

Yn dilyn ymgynghoriad am wella gwasanaethau bus y llynedd, beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau rhwydwaith bysiau cynaliadwy sy'n gwasanaethu Cymru gyfan?

Dawn Bowden *Merthyr Tudful a Rhymni*

10 OAQ51517 **TYNNWYD YN ÔL**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio'r rhaglen manau cyfyng ar yr A470 ym Merthyr Tudful?

Sian Gwenllian *Arfon*

11 OAQ51520 [Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg](#)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynghylch gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer economi gogledd Cymru?

Andrew R.T. Davies *Canol De Cymru*

12 OAQ51495

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y bydd polisiâu economaidd Llywodraeth Cymru yn gwella'r cyflogau a gaiff eu cymryd adref yng Nghymru?

Suzy Davies *Gorllewin De Cymru*

13 OAQ51499

Pwy sy'n cynghori Ysgrifennydd y Cabinet ar benderfyniadau i gymeradwyo ceisiadau a wneir i'r gyllideb buddsoddi cyfryngau ar hyn o bryd?

Nick Ramsay *Mynwy*

14 OAQ51497

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau yn y sector preifat a gynlluniwyd i hyrwyddo Mynwy fel porth i dde Cymru?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

15 OAQ51498

Sut y mae blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru dros geir modur preifat yn effeithio ar ddyrannu adnoddau o fewn y portffolio economi a thrafnidiaeth?

Cwnsler Cyffredinol

David Rees *Aberafan*

1 OAQ51510

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chymheiriaid yn y DU mewn perthynas â chadw siarter yr UE ar hawliau sylfaenol yn rhan o gyfraith y DU yn dilyn Brexit?

Simon Thomas *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ51493 [Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg](#)

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Deddfau Uno 1535-42 ar gyfansoddiad Cymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OAQ51523

Yn sgil Adolygiad Lammy, a wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am amrywiaeth yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru?

Simon Thomas *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ51494 [Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg](#)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynglŷn a gallu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei grymoedd newydd o dan Ddeddf Cymru 2017?